# Gweithgaredd Dysgu - Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o chwech am Paul Robeson ar gyfer CA3.

Gadewch i Paul Robeson Ganu!
Bywyd Cynnar Robeson
Paul Robeson: Addysg
Paul Robeson: Dinesydd Byd-eang
**Paul Robeson: Llwyfan a Sgrin**
Robeson yng Nghymru

## Paul Robeson: Llwyfan a Sgrin

## Gan South Wales Miners Library

## Cyflwyniad


**Paul Robeson yn dod yn enwog.**

Y mae'r uned hon yn cefnogi datblygu sgiliau holi trwy edrych ar berfformiadau llwyfan a sgrin Paul Robeson. Y mae hefyd yn edrych ar deipgastio actorion a stereoteipio rolau pobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol ac ethnig.

**Tasgau ac amcanion dysgu**

1. Ym mha ddramâu llwyfan y gwnaeth Robeson ymddangos?
2. Ym mha ffilmiau y gwnaeth Robeson ymddangos?

## 1. Ym mha ddramâu llwyfan y gwnaeth Robeson Ymddangos?




*Poster ar gyfer Unity Theatre, Llundain, 1938*



*Othello, 1943-45*

Ymddangosodd Paul Robeson mewn llawer o ddramâu llwyfan yn Unol Daleithiau America ac yn Llundain yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Daeth yn adnabyddus ar y llwyfan, y sgrin ac mewn perfformiadau cyngerdd yn rhyngwladol.

Roedd y dramâu'n cynnwys Shakespeare a sioeau cerdd. Am ei fod yn teimlo'n gryf dros newid agweddau at hawliau sifil, gwrthododd berfformio ar lwyfan o flaen cynulleidfaoedd theatr a oedd wedi'u gwahanu, a oedd yn gyffredin yn America ac mewn gwledydd eraill, hyd at yr 1960au.

Trafodwch ba fathau o ddramâu y bu Robeson yn rhan ohonyn nhw yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.


Nodwch brif nodweddion y rolau hyn. A oedd themâu cyffredin yn rhedeg trwyddyn nhw?

Cymharwch yr hyn rydych chi wedi'i ganfod am brofiadau Robeson â rolau heddiw i actorion du ar y llwyfan neu ar y teledu.

**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

Poster ar gyfer Unity Theatre Llundain, 1938
Othello, 1943-45

## 2. Ym mha ffilmiau y gwnaeth Robeson ymddangos?





*Proud Valley, 1940* *Cast Showboat, 1928*

Roedd cynnydd a dylanwad y sinema ar gynulleidfaoedd yn cynnig cyfle i Paul Robeson gyfuno'i wleidyddiaeth â'i ddoniau artistig. Rhoddodd gyfle iddo gysylltu â chynulleidfa ffilmiau oedd yn tyfu'n gyflym.

Bu Paul Robeson yn serennu mewn un deg un o ffilmiau. Cawson nhw eu ffilmio yn UDA ac ym Mhrydain a chafodd ProudValley' ei lleoli a'i ffilmio yng Nghymru.

Trafodwch beth rydych chi wedi'i ddarganfod am y rolau a chwaraeodd Robeson ar ffilm. Oes unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau i'r rhai a chwaraeodd ar y llwyfan?

Beth oedd y rolau a oedd yn stereoteip i actor Americanaidd-Affricanaidd?

Beth yw teipgastio? Beth yw eich barn am deipgastio proffiliau ethnig mewn ffilmiau neu ar y llwyfan neu ar y teledu?

**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

**Proud Valley, 1940**
**Cast Showboat, 1928**